**Rhif: WG54889**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026 – crynodeb o'r ymatebion

7 Awst 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-142-2

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 27 Mawrth a 19 Mehefin 2026 i gasglu barn ar y canllawiau drafft i awdurdodau lleol ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026, yn ogystal â'r canllawiau statudol drafft ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026

## Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Seilwaith Addysg, Llywodraethu a Chyllid
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ariannu.ysgolion@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maen nhw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Canllawiau ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 | LLYW.CYMRU

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?** | **3** |
| **Crynodeb o'r ymatebion** | **4** |
| **Dadansoddiad o'r ymatebion** | **5** |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru** | **8** |
| **Y Camau Nesaf** | **9** |
| **Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr** | **10** |

## Cyflwyniad

Nod yr ymgynghoriad hwn oedd casglu barn ar eglurder a defnyddioldeb dwy ddogfen ganllaw mewn perthynas â Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 (“Rheoliadau 2026”).

Darparwyd y dogfennau canllaw drafft yn yr ymgynghoriad. Roedd y dogfennau canllaw drafft ar y pryd yn cyfeirio at Reoliadau 2026, sydd ers hynny wedi'u dirymu a'u disodli gan Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026 ("Rheoliadau Rhif 2") i gywiro rhai mân wallau. Mae effeithiau sylweddol Rheoliadau Rhif 2 yn aros yr un fath, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ychwanegol. Bydd cyfeiriadau at Reoliadau 2026 yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at Reoliadau Rhif 2.

Mae'r canllawiau i awdurdodau lleol ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 yn rhoi arweiniad cyffredinol ar Reoliadau 2026 (Rheoliadau Rhif 2 erbyn hyn), ac eithrio Rhan 4 ac Atodlen 4, sy'n ymwneud â chynlluniau ariannol. Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Er nad oes dyletswydd statudol i ystyried y canllawiau hyn, byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r rheini y'u bwriedir ar eu cyfer eu hystyried wrth wneud penderfyniadau yn y meysydd y maent yn berthnasol iddynt.

Cyhoeddir y canllawiau statudol ar gynlluniau ariannol ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 48(4) a pharagraff 2A(2) o Atodlen 14 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 (“Deddf 1998”). Maent yn ganllawiau statudol felly rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth ddiwygio eu cynlluniau ariannol. Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yw'r rhain. Fodd bynnag, dylent geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain o ran yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Datblygwyd y dogfennau canllaw hyn mewn ymateb i geisiadau gan randdeiliaid am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar Reoliadau 2026 (Rheoliadau Rhif 2 erbyn hyn). Bwriedir i'r canllawiau hyn gefnogi'r gwaith o ddehongli Rheoliadau Rhif 2 a hyrwyddo dull cyson o'u gweithredu ar draws awdurdodau lleol.

## Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Mae Rheoliadau Rhif 2 yn darparu ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac yn sefydlu'r fframwaith ariannol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Maent hefyd yn nodi gwybodaeth am wariant awdurdodau lleol ar addysg y mae rhaid ei chynnwys mewn datganiadau cyllideb o wariant arfaethedig a datganiadau alldro o wariant gwirioneddol.

Diben y newidiadau a wneir gan Reoliadau Rhif 2 yw gwneud y system cyllido ysgolion yn fwy tryloyw, cymaradwy a chyson. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i drafodaethau cyllidebol fod yn seiliedig ar wybodaeth ar bob lefel. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu polisïau a deddfwriaeth gyfredol ac yn diweddaru terminoleg yn briodol.

## Crynodeb o’r ymatebion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 27 Mawrth a 19 Mehefin 2026. Cawsom gyfanswm o 11 o ymatebion, gan gynnwys ymatebion gan awdurdodau lleol ac undebau llafur. Caiff ymatebion eu cadw'n ddienw os na nodwch yn wahanol. Ceir yn Atodiad A restr o'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd ac a gytunodd i'w henwau gael eu cyhoeddi.

Bu swyddogion hefyd yn ymgynghori'n uniongyrchol â'r Gweithgor Adolygu Cyllid Ysgolion, sy'n cynnwys arweinwyr cyllid awdurdodau lleol, yn ystod y broses o lunio'r canllawiau.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn am ymateb ‘cytuno’ neu ‘anghytuno’, ynghyd ag unrhyw sylwadau ategol. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Fodd bynnag, ystyriwyd pob ymateb lle atebwyd o leiaf un cwestiwn neu lle cyflwynwyd sylwadau ar y cynigion.

Nid yw'r crynodeb hwn yn gofnod cynhwysfawr o'r holl sylwadau a wnaed, ac os yw mater penodol wedi cael ei hepgor, nid yw'n golygu ei fod wedi cael ei anwybyddu neu ei fod yn llai pwysig.

Yn y crynodeb hwn, rydym wedi grwpio'r dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl y ddwy ddogfen ganllaw.

# Dadansoddiad o’r ymatebion

## Trosolwg

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda chefnogaeth gadarn i'r ddwy set o ganllawiau drafft: y canllawiau i awdurdodau lleol ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026, a'r canllawiau statudol drafft ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Croesawodd ymatebwyr y ffordd gliriach y mae'r canllawiau'n egluro trefniadau cyllido ysgolion, gan gydnabod eu potensial i wella tryloywder, atebolrwydd a dealltwriaeth o benderfyniadau cyllido.

Er bod ymatebwyr yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y canllawiau, thema gyffredin oedd yr awydd am ragor o enghreifftiau ymarferol a thempledi ategol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai'r rhain yn helpu i sicrhau dull mwy cyson o ddehongli a chymhwyso'r canllawiau ar draws awdurdodau lleol.

## Cwestiynau 1 i 7 – Canllawiau drafft i awdurdodau lleol ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026

Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y canllawiau cyffredinol drafft yn rhoi eglurder ynghylch Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026. Roedd llawer o'r farn bod y canllawiau yn glir, yn rhesymegol ac yn cefnogi dealltwriaeth o'r Rheoliadau. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y disgrifiad o'r fframwaith cyllido, y berthynas rhwng y gwahanol gategorïau cyllideb, a'r esboniad o'r trefniadau dirprwyo yn arbennig o ddefnyddiol. Er bod y canllawiau wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r esboniadau a ddarperir hefyd yn helpu cyrff llywodraethu a rhanddeiliaid eraill i ddeall y gofynion. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr y gallai'r defnydd o iaith dechnegol wneud y canllawiau'n llai hygyrch i rai cynulleidfaoedd.

Ymhlith yr awgrymiadau roedd darparu canllawiau a fyddai'n annog awdurdodau lleol i esbonio eu fformiwlâu cyllido er mwyn helpu rhanddeiliaid i'w deall yn well, rhoi gwybodaeth am gyfnodau adolygu, egluro sut y bydd data a gesglir yn cael eu defnyddio, a gwneud mân ddiwygiadau i'r fformatio.

Roedd sawl ymatebydd yn croesawu'r pwyslais cynyddol ar dryloywder a'r ffordd gliriach yr eglurwyd y gwahaniaeth rhwng dirprwyo craidd a dirprwyo yn ôl disgresiwn. Fe wnaeth ambell ymatebydd hefyd dynnu sylw at y potensial i wneud gwybodaeth am gyllid yn fwy cymaradwy rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.

Roedd pwysigrwydd cysondeb ledled Cymru yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. Roedd ymatebwyr yn credu y dylai'r canllawiau helpu i hyrwyddo dull gweithredu mwy cyson ymhlith awdurdodau lleol. Nodwyd yn benodol gyflwyno fformiwlâu cyllido, dosbarthu gwariant, trefniadau dirprwyo ac arferion adrodd fel meysydd lle gallai mwy o gysondeb arwain at well tryloywder a chymhared. Yn gyffredinol roedd ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau yn cefnogi dehongliad a dealltwriaeth fwy cyffredin o'r gofynion, gan helpu i annog mwy o gysondeb wrth weithredu ar draws awdurdodau lleol.

Thema arall a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd gwerth cynnwys enghreifftiau ymarferol i ategu'r canllawiau. Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai enghreifftiau o arferion da, astudiaethau achos a thempledi gan Lywodraeth Cymru gefnogi dealltwriaeth ymhellach a hyrwyddo dull gweithredu mwy cyson ar draws awdurdodau lleol.

Cododd nifer bach o ymatebwyr faterion ehangach yn ymwneud â threfniadau cyllido a llywodraethu ysgolion, gan gynnwys galwadau am baramedrau cenedlaethol cryfach a gofynion sylfaenol mewn meysydd fel trefniadau cyllido a gweithredu Fforymau Cyllideb Ysgolion. Er bod y rhain yn ystyriaethau pwysig o fewn y dirwedd ariannu ysgolion ehangach, maent y tu hwnt i gwmpas a phwrpas penodol y canllawiau yr ymgynghorwyd arnynt.

## Cwestiynau 8 i 11 – Canllawiau statudol drafft ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno yn gyffredinol fod y canllawiau statudol drafft yn darparu fframwaith cliriach ar gyfer cynlluniau ariannu ysgolion awdurdodau lleol. Ystyriwyd bod y canllawiau yn gwella dealltwriaeth o briod rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ac ysgolion. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod y canllawiau yn glir, wedi'u strwythuro'n dda ac yn ddealladwy.

Yn yr un modd â'r canllawiau cyffredinol, croesawodd yr ymatebwyr y dull gweithredu cyffredinol ond roeddent yn awgrymu y byddai cynnwys enghreifftiau ychwanegol a darluniau ymarferol yn cefnogi dealltwriaeth yn well ac yn helpu i gymhwyso'n gyson ar draws awdurdodau lleol. Gofynnir am dempled ar gyfer cynlluniau ariannu yn aml.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am arweiniad pellach mewn perthynas â threfniadau adennill diffyg a rheoli ysgolion sy'n gweithredu mewn diffyg, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant a chymhwyso trothwyon diffyg. Gofynnodd nifer bach hefyd am eglurhad ynglŷn â gofynion ymgynghori. Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud yn bennaf â rheolaeth ariannol weithredol a materion polisi lleol yn hytrach na materion y mae'r canllawiau statudol yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â hwy.

Er bod y materion hyn y tu allan i gwmpas y canllawiau yr ymgynghorwyd arnynt, gellir eu hystyried ar wahân fel rhan o weithgareddau ymgysylltu a chymorth rhanddeiliaid yn y dyfodol.

## Y Gymraeg

Roedd y rhan fwyaf yn credu na fyddai'r canllawiau yn cael llawer o effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, os o gwbl. Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol. Fe wnaeth rhai dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer hyrwyddo cyfathrebu dwyieithog, sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei thrin yn deg a darparu deunyddiau ategol dwyieithog.

Cododd un ymatebydd nifer o faterion ynghylch ansawdd a chywirdeb fersiwn Gymraeg y dogfennau ymgynghori. Fe wnaeth yr ymatebydd gydnabod bod y materion hyn wedi cael eu cywiro wedyn ar ôl cyfathrebu â swyddogion.

## Materion eraill a godwyd

Roedd nifer o ymatebion yn codi materion ehangach yn ymwneud â lefelau cyllid addysg, amserlenni pennu cyllideb awdurdodau lleol, trefniadau llywodraethu, cyhoeddi gwybodaeth am y Fforwm Cyllideb Ysgolion a thryloywder ehangach o ran data cyllid ysgolion. Er nad oedd y materion hyn yn dod yn uniongyrchol o fewn cwmpas yr ymgynghoriad, maent yn dangos y diddordeb ehangach sydd gan randdeiliaid mewn gwella dealltwriaeth a hygyrchedd gwybodaeth am gyllid ysgolion.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gadarn i'r ddwy set o ganllawiau drafft: y canllawiau i awdurdodau lleol ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026, a'r canllawiau statudol drafft ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno fod y canllawiau yn gwella eglurder, tryloywder a dealltwriaeth o drefniadau cyllido ysgolion ac yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer helpu i roi'r Rheoliadau ar waith.

Bydd swyddogion yn ystyried a oes angen diwygio i gryfhau'r canllawiau ymhellach yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd y prif awgrymiadau yn canolbwyntio ar gynnwys enghreifftiau ychwanegol, templedi a chymorth gweithredu i hyrwyddo cysondeb a dealltwriaeth. Roedd nifer o ymatebion hefyd yn codi materion ehangach yn ymwneud â pholisi cyllido ysgolion, arferion awdurdodau lleol a materion gweithredol sy'n dod y tu hwnt i gwmpas y canllawiau. Er na fydd y materion hyn yn cael eu hystyried drwy'r canllawiau, bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn rhan o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu deunyddiau arferion da atodol yn y dyfodol.

## Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, nid yw'r holl bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r ddwy ddogfen ganllaw yn sylweddol fel y'u cynigir, gan ystyried yr adborth a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

Er mwyn helpu i'w gweithredu mewn ffordd gyson, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu templed datganiad cyllideb, ynghyd â nodiadau canllaw, i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr awdurdodau lleol. Bwriad y templed yw hyrwyddo mwy o gysondeb wrth adrodd ledled Cymru, gwella tryloywder, cefnogi cymhared gwybodaeth ariannol i ysgolion a rhanddeiliaid, a helpu i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol drwy ddarparu fformat safonol a pharod i'w ddefnyddio. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylai pob awdurdod lleol ddefnyddio'r templed a ddarperir.

Gwnaed Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026 ar 29 Mehefin 2026 a deuant i rym ar 31 Ionawr 2027. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2027 neu ar ôl hynny. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofynion newydd o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Bydd y canllawiau terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026 a'r canllawiau statudol ar gynlluniau ar gyfer ariannu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl i gefnogi awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer eu rhoi ar waith.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac yn darparu rhaglen o sesiynau hyfforddi ac ymgysylltu wedi'u teilwra ledled Cymru i helpu i ddeall a gweithredu'r gofynion newydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried adborth gan randdeiliaid ac yn parhau i adolygu'r canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn berthnasol ac yn effeithiol o ran cefnogi tryloywder a dealltwriaeth o drefniadau cyllido ysgolion.

## Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr

Cafwyd cyfanswm o 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Caiff ymatebion eu cadw'n ddienw os na nodwch yn wahanol. Y rhai a restrir yma yw'r bobl a'r sefydliadau a roddodd eu caniatâd i gyhoeddi eu henw.

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

Laurence Matuszczyk

NASUWT Cymru